Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Triniaeth Laser (Yag. - Iridotomi) Yr Uned Llygaid

---

Mae'r daflen hon wedi'i pharatoi i'ch helpu i ddeall mwy am eich triniaeth laser, a beth i'w ddisgwyl yn eich apwyntiad laser.

Mae **triniaeth laser** yn cynnig manteision pwysig gan y gellir osgoi llawdriniaethau llygaid yn aml. Defnyddir y laser ar gyfer sawl cyflwr llygaid gwahanol, ac yn y rhan fwyaf o  achosion nid yw'n achosi anghysur na phoen. Mae'n golygu anelu pelydr o olau at fan penodol o'r llygad i'w thrin.

**Iridotomi drwy Laser Yag**

Defnyddir y laser Yag i atal y cynnydd sydyn mewn pwysedd y tu mewn i'r llygad, a elwir yn glawcoma acíwt. Mae’r pyliau’n boenus iawn a gallant fygwth golwg. Mae'r driniaeth yn cymryd ychydig funudau, a gall gynnwys peth anghysur. Mae'r laser yn gwneud 1-2 twll yn yr iris (rhan lliw y llygad) gan greu llwybrau newydd i hylifau y tu mewn i'r llygad basio drwyddynt, gan helpu i reoli'r pwysedd.

Mae'r driniaeth laser yn cael ei chynnal yn y clinig cleifion allanol.

- Pan fyddwch chi'n cyrraedd y clinig bydd eich golwg yn cael ei asesu a gellir rhoi diferion yn eich llygaid. Mae'r rhain i helpu gyda'r driniaeth.

- Bydd y meddyg yn esbonio pam rydych chi'n cael triniaeth laser, os nad ydych wedi  cael gwybod mewn apwyntiad cynharach. Bydd hefyd yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd.

- Byddwch yn mynd i'r ystafell laser lle byddwch yn eistedd wrth beiriant sydd â man gorffwys ar gyfer yr ên a’r pen.

- Gall y meddyg roi diferion eraill i fferru blaen y llygad cyn gosod lens gyffwrdd chwyddo arbennig arni. Yna rhoddir y driniaeth laser a byddwch yn clywed sŵn clicio.

- Ar ôl y driniaeth laser, argymhellir i chi eistedd am tua 5-10 munud i ddod at eich hun.

- Efallai y byddwch chi'n cael presgripsiwn o ddiferion llygaid neu dabledi i’w cymryd am gyfnod byr, i amddiffyn y llygad rhag unrhyw gynnydd tymor byr mewn pwysedd yn y llygad.

- Byddwch hefyd yn cael apwyntiad dilynol.

**Nodiadau pwysig**

1. **Peidiwch â gyrru i'r apwyntiad hwn.** Efallai y bydd eich golwg yn aneglur am sawl awr wedyn.

2. **Argymhellir dod ag oedolyn arall gyda chi.**

3. **Mae'n bwysig iawn cadw eich apwyntiad dilynol.**

4. **Os nad ydych yn gallu dod i'ch apwyntiad triniaeth laser, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Mae rhestr aros a byddwn yn gallu cynnig eich apwyntiad i rywun arall.**

5. Os oes gennych unrhyw bryderon am eich llygad pan fyddwch gartref, ffoniwch: -

**Clinig Llygaid Brys ar: 01633 238856**

a bydd nyrs yn hapus i siarad â chi.

**NODIADAU PERSONOL**

____________________________________________________

____________________________________________________

____________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**

**This document is available in English".**